# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 06 Ionawr 2025

## SL(6)558 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r rheoliadau hyn yn caniatáu i dri awdurdod lleol yng Nghymru (Casnewydd, Powys a Gwynedd) ymgymryd â gweithgarwch peilota ynghylch cofrestru etholiadol heb geisiadau.

O dan y cynllun peilot a gyflwynir gan y Rheoliadau hyn, bydd etholwyr yn cael hysbysiad cofrestru a fydd yn rhoi gwybod iddynt fod ganddynt 60 diwrnod i hysbysu eu hawdurdod lleol:

(a) os nad ydynt yn dymuno cael eu cofrestru'n awtomatig;
(b) os ydynt yn credu eu bod yn gymwys i gofrestru yn ddienw; neu
(c) os ydynt yn credu nad oes ganddynt hawl i gofrestru.

Rhaid cynnal y gweithgarwch peilota hwn rhwng y dyddiad y daw'r rheoliadau hyn i rym a 30 Medi 2025.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 17 Ionawr 2025

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**